# Cofnodion cryno - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 2 Mai 2019

Amser: 09.32 - 12.33

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5530

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Bethan Sayed AC (Cadeirydd)<br>Mick Antoniw AC<br>Vikki Howells AC<br>Delyth Jewell AC<br>David Melding AC |
| Tystion: | Richard Bellamy, Cronfa Dreftadaeth y Loteri<br>Diane Hebb, Cyngor Celfyddydau Cymru<br>Dr Eva Elliott, Prifysgol Caerdydd<br>Yr Athro Morag McDermont, Ysgol y Gyfraith Prifysgol Bryste |
| Staff y Pwyllgor: | Martha Da Gama Howells (Ail Glerc)<br>Lowri Jones (Dirprwy Glerc)<br>Robin Wilkinson (Ymchwilydd) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Jayne Bryant AC, Caroline Jones AC a Rhianon Passmore AC.

## 2 Minnau hefyd! - Ymchwiliad i rôl y celfyddydau a diwylliant wrth fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol: Cyllid Cyhoeddus

2.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

## 3 Minnau hefyd! - Ymchwiliad i rôl y celfyddydau a diwylliant wrth fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol: Academyddion

3.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Gohebiaeth â'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ynghylch Radio yng Nghymru

4.1 Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu eto at y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth i ofyn am eglurhad ynghylch diffinio 'achos cryf' mewn perthynas ag ailsefydlu'r gronfa radio.

### 4.2 Gohebiaeth â Llywodraeth Cymru ynghylch safonau'r Gymraeg

4.2 Nododd yr Aelodau y papur.

### 4.3 Gohebiaeth â CBAC ynghylch addysgu hanes a diwylliant Cymru mewn ysgolion

4.3 Cytunodd yr Aelodau i drafod y papur hwn yn ystod rhan breifat y cyfarfod.

### 4.4 Gohebiaeth ag Estyn ynghylch addysgu hanes a diwylliant Cymru mewn ysgolion

4.4 Cytunodd yr Aelodau i drafod y papur hwn yn ystod rhan breifat y cyfarfod.

### 4.5 Gohebiaeth â BBC Cymru ynghylch cynllun blynyddol y BBC

4.5 Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at Gyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau i ofyn a ellid dileu Cymru o'r cynigion i newid lefel y newyddion a ddarlledir yn y bore.

### 4.6 Ymchwiliad i rôl y celfyddydau a diwylliant wrth fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol: Tystiolaeth ychwanegol gan Age Cymru

4.6 Nododd yr Aelodau y papur.

### 4.7 Gohebiaeth â Llywodraeth Cymru ynghylch addysgu hanes a diwylliant Cymru mewn ysgolion

4.7 Cytunodd yr Aelodau i drafod y papur hwn yn ystod rhan breifat y cyfarfod.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Ôl-drafodaeth breifat

6.1 Trafododd yr Aelodau'r dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Cynyrchiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru: Trafod yr adroddiad drafft

7.1 Trafododd yr Aelodau yr adroddiad a chytunodd arno gyda mân newidiadau.

## 8 Papur cwmpasu ar y diwydiant cerddoriaeth

8.1 Trafododd yr Aelodau y papur cwmpasu a chytunodd arno gyda mân newidiadau.